

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 9 Medi 2019 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Dave Snape and Heather Williams.

22. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Jim Bryan ac Emrys Wynne.

23. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

24. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2019 yn gywir.*

25. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

26. ARDALOEDD TORRI GLASWELLT

Esboniodd y Clerc nad oedd y Swyddog Bioamrywiaeth wedi ymateb i'w cheisiadau. Awgrymwyd cysylltu gyda'r swyddog eto i drefnu cyfarfod gyda chriw bach o'r aelodau i drafod hyn, a gohirio'r drafodaeth ehangach nes bo hynny wedi digwydd.

PENDERFYNWYD: *cysylltu gyda'r Swyddog Bioamrywiaeth eto a threfnu cyfarfod.*

27. AROLWG Y MEINCIAU CYHOEDDUS YN RHUTHUN

Ymddiheurodd y Cadeirydd nad oedd wedi anfon y map at yr aelodau yn nodi pa ardaloedd roeddynt wedi gwirfoddoli i dynnu lluniau'r meinciau ynddi. Cynigiwyd gohirio hyn tan y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: *dosbarthu'r map a thrafod hyn, gyda'r ffotograffau, yn y cyfarfod nesaf.*

28. TÎM TREF TACLUS

Adroddodd y Cadeirydd bod y Tîm wedi cyfarfod yn ystod yr haf, ac yn fwyaf diweddar i dacluso cyn penwythnos Drysau Agored. Cynhelir y sesiynau nesaf ddydd Sul, 6 Hydref a dydd Sadwrn, 2 Tachwedd 2019.

PENDERFYNWYD: *nodi dyddiadau'r sesiynau Tîm Tref Taclus nesaf.*

29. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 7 Hydref 2019 am 7:00pm.*

Roedd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedi cael gwahoddiad i ymuno â'r cyfarfod i drafod y ddwy eitem nesaf.

30. RHUTHUN FEL SAFLE YMGEISOL AR GYFER FELODROM GOGLEDD CYMRU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a oeddynt o blaid mynegi diddordeb i leoli Felodrom Gogledd Cymru yn Rhuthun. Esboniodd y Cynghorydd Gavin Harris bod pedwar lleoliad wedi'u hystyried yn y trafodaethau dechreuol, ac mai'r safle yng Nglasdir oedd yn cael ei ffafrio. Y bwriad yw cael felodrom awyr agored gyda chae bob tywydd yn y canol, gyda thwnel mynediad fel bod modd defnyddio'r ddau gyfleuster ar yr un pryd, ar safle sy'n eiddo i Gyngor Sir Ddinbych. Roedd gogwydd y felodrom arfaethedig wedi'i newid ychydig fel na fyddai'n amharu ar y cais am 77 o gartrefi ar y cae cyfagos. Pwysleisiodd y Cynghorydd Harris bod angen i'r cyfleuster fod yn un aml-ddefnydd i'r gymuned, ac y byddai angen cydweithio gyda phartneriaid i wireddu hun.

PENDERFYNWYD: *bod yr aelodau o blaid cyflwyno dogfen yn mynegi diddordeb i ystyried Rhuthun ar gyfer Felodrom Gogledd Cymru erbyn 30 Medi.*

31. YMGYNGHORIAD CYN CYFLWYNO CAIS CYNLLUNIO – TIR YNG NGLASDIR, RHUTHUN

Roedd yr aelodau wedi derbyn manylion ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio Cymdeithas Tai Clwyd Alyn ynghylch cais cynllunio arfaethedig ar gyfer 77 annedd ar dir yng Nglasdir. Holodd aelodau a fyddai'r dref yn medru cynnal y nifer yma o anheddau newydd, o ran lleoedd ysgol a chofrestru a gweld deintydd a meddyg teulu. Roedd pryder nad oedd seilwaith i gefnogi'r twf. Mynegwyd pryder hefyd bod y cynlluniau'n dangos defnyddio'r ffordd i safle'r ysgolion newydd fel y ffordd fynedfa, ac roedd pryder y byddai hyn yn creu problemau traffig ac yn peryglu diogelwch disgyblion. Tynnwyd sylw bod y datblygwr yn cynnal arddangosfa ymgynghori yn Marchnad y Ffermwyr a bod gwahoddiad i Gynghorwyr fynd yno i holi cwestiynau a thrafod eu pryderon.

PENDERFYNWYD: *nodi'r sylwadau ac annog aelodau i fynd i'r ymgynghoriad cyhoeddus.*